cyfrwng
MEDIA WALES JOURNAL
CYFNODOLYN CYFRYNGAU CYMRU

Gwobr Goffa James Thomas – James Thomas Memorial Prize Essay

Braint ac anrhydedd i *Cyfrwng* yw gallu cyhoeddi cystadleuaeth Gwobr Goffa James Thomas. Roedd Dr James Thomas (1971–2007) yn un o gyd-sylfaenwyr Cyfrwng ac yn gyd-olygydd tri rhifyn cyntaf y cyfnodolyn. Treuliodd James ei yrfa academaidd yn gyfan gwbl yng Nghymru – cyflawnodd ei ddoethuriaeth ar berthynas y Blaid Lafur â'r wasg boblogaidd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe ym 1999, cyn troi at ddysgu hanes ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe ac yna ym Mhrifysgol Cymru, Bangor cyn ymuno â Phrifysgol Caerdydd. Cysegrodd ei yrfa academaidd i'r dasg o hyrwyddo astudiaethau'r cyfryngau yng Nghymru a daeth yn aelod hanfodol o dîm dysgu ac ymchwil Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd ers iddo ymuno â'r Ysgol yn 2001. Yr oedd ei ddiddordebau ymchwil yn amrywiol a thoreithiog ac ymhlith

ei brif gyfraniadau i ymchwil y mae ei gyfrolau, *Diana's Mourning: A People's History* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), a *Popular Newspapers, the Labour Party and British Politics* (Routledge, 2005), a sefydlodd enw da James fel un o haneswyr cyfryngau gorau ei genhedlaeth.

Yr oedd James yn hynod falch o'r gwaith a gyflawnwyd gan *Cyfrwng* a'r cyfraniad a wneir gan y cyfnodolyn i hyrwyddo astudiaethau'r cyfryngau a Chymru. Gyda'i gyd-olygydd amlinellodd ei fwriadau ar gyfer y cyfnodolyn yn y golofn olygyddol gyflwyniadol: '. . . nod [*Cyfrwng*] yw darparu fforwm bywiog a hygyrch a fydd yn annog ymchwilwyr ar bob lefel i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y meysydd hyn. Y mae'n gobeithio cynnig cyfrwng i'r sawl sy'n ymwneud â'r diwydiant i drafod â'r sawl sy'n cynnal astudiaethau academaidd ffurfiol o'r cyfryngau a hefyd â'r darllenydd cyffredinol sydd â diddordeb yn y cyfryw faterion.' O gofio hyn ac yn gydnabyddiaeth o'i gyfraniad ef ei hun, y mae *Cyfrwng* yn falch o gyhoeddi bod gwobr flynyddol wedi ei sefydlu yn ei enw er mwyn annog myfyrwyr ôl-radd ac ysgolheigion ar ddechrau eu gyrfa i gyfrannu i'r trafodaethau ar gyfryngau Cymru trwy ymchwilio, ysgrifennu a chyflwyno ysgrif i'w chyhoeddi yn *Cyfrwng*.

Canllawiau cyflwyno:

- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno erthyglau yw **1 Mai** pob blwyddyn, gan ddechrau yn 2009.
- Cyfnodolyn dwyieithog yw *Cyfrwng* a gall ymgeiswyr gyflwyno erthyglau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Cyflwynir gwobr flynyddol i'r erthygl cyfrwng Cymraeg orau ac un arall i'r erthygl cyfrwng Saesneg orau. Cyhoeddir y ddwy erthygl, yn amodol ar drefn olygyddol arferol *Cyfrwng*, yn y cyfnodolyn a chyflwynir gwobr gwerth £250 yr un i awduron y ddwy erthygl.
- Rhaid i ymgeiswyr y gystadleuaeth hon fod wedi cofrestru fel myfyrwyr ôl-radd neu yn ysgolheigion ar ddechrau eu gyrfa.
- Rhaid i'r erthyglau a gyflwynir fod yn berthnasol i unrhyw un, neu fwy, o'r chwe maes diwydiannau creadigol sydd dan sylw *Cyfrwng* – radio, ffilm, teledu, cyfryngau newydd, newyddiaduraeth, ac astudiaethau theatr a pherfformio – a rhaid cael safbwynt ar Gymru.
- Dylai erthyglau fod rhwng 4,000 a 6,000 o eiriau, gan gynnwys troednodiadau. Dylai erthyglau ddilyn canllawiau diwyg a chyflwyno'r cyfnodolyn *Cyfrwng* sydd i'w cael ar www.cyfrwng.com
- Dylid cyflwyno copiau dyblyg o'r erthyglau, ond ni ddylid ysgrifennu enw, cyfeiriad a chyfeiriad ebost yr ymgeisydd ar yr erthygl ei hun ond yn hytrach eu hamgáu ar ddalen ar wahân i'w chynnwys gyda'r traethawd. Dylid cyflwyno crynodeb o rhwng 100 a 150 o eiriau a phump neu chwe gair allweddol gyda'r erthygl. Dylai pob cais gynnwys datganiad o gefnogaeth gan arolygydd ymchwil neu Bennaeth Adran a'i anfon ar ffurf copi caled at Dr Gwenno Ffrancon, Cyfrwng, Adran Cyfathrebu a'r Cyfryngau, Prifysgol Abertawe, Abertawe SA2 8PP a hefyd trwy ebost at gwobrgoffa@cyfrwng.com
- Gall ymgeiswyr gystadlu mewn mwy nag un flwyddyn pe dymunant, ond ni chaniateir i ymgeiswyr gyflwyno mwy nag un erthygl mewn unrhyw rownd. Ni chaiff erthyglau sydd wedi eu hail-gyflwyno eu hystyried oni bai y gwelir ôl diwygiadau sylweddol.
- Caiff y gystadleuaeth ei beirniadu gan bwyllgor a benodir gan Fwrdd Rheoli *Cyfrwng*. Y mae'r pwyllgor yn cadw'r hawl i atal y gwobrau mewn unrhyw flwyddyn benodol. Bydd penderfyniad y beirniaid, a fydd yn derfynol, yn cael ei gyhoeddi i'r holl ymgeiswyr ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

cyfrwng
MEDIA WALES JOURNAL
CYFNODOLYN CYFRYNGAU CYMRU

James Thomas Memorial Prize Essay – Gwobr Goffa James Thomas

Cyfrwng is honoured to announce the James Thomas Memorial Prize Essay competition. Dr James Thomas (1971–2007) was co-founder of *Cyfrwng* and co-editor of the first three issues of the journal. James spent all his academic life in Wales – he completed his Ph.D. on the Labour Party's relationship with the popular press at Swansea in 1999, before going on to teach history at both the University of Wales, Swansea, and the University of Wales, Bangor, prior to joining Cardiff University. He dedicated his academic career to furthering the study of the media in Wales and became a vital member of the teaching and research team at the School of Media, Journalism and Cultural Studies at Cardiff University, which he joined in 2001. His research output was varied and prolific and among his major contributions are the

monographs, *Diana's Mourning: A People's History (University of Wales Press, 2002)* and *Popular Newspapers, the Labour Party and British Politics* (Routledge, 2005), which established him as one of the finest media historians of his generation.

James was extremely proud of the work achieved by *Cyfrwng* and by the contribution made by the journal in encouraging the study of the media and Wales. With his co-editor, he outlined the aims of the journal in the introductory editorial: '[*Cyfrwng*] aims to provide an accessible and lively forum that will encourage researchers at all levels to engage in debates in these areas. It hopes to offer a medium through which those engaged in the industry can debate both with those involved in the formal academic study of media and the general reader with an interest in such issues.' With that in mind and in recognition of his own contribution, Cyfrwng is proud to announce that an annual prize essay has been established in his name in order to encourage post-graduate students and early career scholars to contribute to debates within Welsh media by researching, writing and submitting for publication an article in *Cyfrwng*.

Guidelines for submission:

- The closing date for the submission of articles is **1 May** per annum, beginning in 2009.
- *Cyfrwng* is a bilingual journal and candidates may submit articles through the medium of Welsh or English.
- An annual prize will be awarded to the best Welsh-medium article and another for the best English-medium essay. Both articles, subject to the standard editorial procedures of *Cyfrwng*, will be published in the journal and both will be awarded a prize to the value of £250 each.
- Entrants for this competition must be registered postgraduate students or early career scholars.
- Submitted articles must be relevant to any of the six fields of creative industries considered by *Cyfrwng* – radio, film, television, new media, journalism, and theatre and performance studies – and must have a perspective on Wales.
- Articles should be between 4,000 and 6,000 words, including footnotes. Articles should follow the *Cyfrwng* journal formatting and presentation guidelines found at www.cyfrwng.com
- Articles should be submitted in duplicate, but the candidate's name and address and email address should not be written on the essay itself but enclosed on a separate cover-sheet to be included with the essay. The article should also be accompanied by a separate abstract of 100 to 150 words and five or six keywords. Submissions should include a supporting statement from a research supervisor or Head of Department and should be sent in hard copy to Dr Gwenno Ffrancon, Cyfrwng, Department of Media & Communication Studies, Swansea University, Swansea, SA2 8PP and also by email to memorialprize@cyfrwng.com
- Candidates may compete in more than one year if they wish, but no candidate may submit more than one essay in any round. Essays resubmitted in later rounds without substantial revisions will not be considered.
- The competition will be adjudged by a committee appointed by the *Cyfrwng* Management Board. The committee reserves the right not to award the prizes in any given year. The decision of the judges, which will be final, will be announced to all competitors in July each year.